

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

GUTUN OWAIN, sef Gruffudd ap Huw ab Owain, uchelwr

Enw: Gutun Owain
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: uchelwr
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Perchnogaeth Tir; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Thomas Roberts

Uchelwr o blwyf Dudlust ym maenor y Traean yn arglwyddiaeth Croesoswallt; perchen tir yn y plwyf nesaf hefyd, sef Llanfarthin - dywedir mai yn eglwys y plwyf hwnnw y claddwyd ef. Yr oedd yn ddisgybl yng nghelfyddyd cerdd dafod i **Dafydd ab Edmwnd**. Tyfodd yn bencerdd, ac nid rhyfedd iddo ganu'n orchestol, megys ei feistr yntau, ar fesurau celfydd. Daeth yn ysgolhaig ac yn achwr o fri hefyd, a dengys ei ysgriflyfrau, a erys hyd heddiw yn y llyfrgelloedd, beth oedd pynciau ei ddysg. Bu'n ddiwyd yn croniclo hanes, ac yn amlhau mewn llaw gain gopïau lawer o'r hen frutiau, o hanes bonedd a bucheddau'r saint, o ddoethineb yr Hen Gymry, o Ramadegau'r Penceirddiaid, o lyfrau meddyginiaeth a seryddiaeth, ac o lyfrau achau teuluoedd uchelwaed.

Cyfeirir ato weithiau fel hanesydd dinas Basing ac Ystrad Fflur. Nid ydys wedi cael praw iddo ymweled â'r fynachlog yng Ngheredigion, ond gwyddys iddo aros yn ninas Basing, ac iddo ysgrifennu, yno ond odid, ei ran o **Lyfr Du Basing (NLW MS 7006D)**, sef cyfran helaeth o'r Brut a elwir yn Frut Tysilio, a'r cwbl o Frut y Saeson hyd 1461. Ceir ganddo mewn llyfr arall o'i law gopi o Frut y Brenhinedd ac o Ystoria Dared, a thybir mai ef yw awdur yr aralleiriad o Frut y Tywysogion a'r cronicl o hanes yr amserau hyd 1471 a geir yn yr un llawysgrif. Ef hefyd biau'r copi cynharaf o'r Llyfr Arfau yn Gymraeg, ac o'r Gramadeg sy'n cynnwys deddfiadau **Dafydd ab Edmwnd** ac eisteddfod Caerfyrddin. Gramadeg Gutun Owain a'i ddosbarth ar y cynganeddion a mesurau cerdd dafod a fu'n sylfaen i ramadegau penceirddiaid yr 16eg ganrif. Erys un llyfr achau, o laweroedd o'i waith, a thystia mynych gyfeiriadau achwyr diweddarach ato mai ef oedd eu sail ar achau Powys a Gwynedd a'r Gororau, megys ag yr oedd hefyd yn un o brif awdurdodau'r comisiwn a benodwyd i olrhain bonedd y **brenin Harri VII**.

Dywed hen gofnod fod Gutun yn y byd yn ystod teyrnasiad Edward IV. Honnir hefyd iddo fynd gyda'i athro **Dafydd ab Edmwnd** i eisteddfod Caerfyrddin yn 1451. Os gwir hyn, rhaid mai llanc ieuanc iawn oedd ar y pryd. Ni ellir bod yn sicr o gwbl ynghylch y dyddiad nesaf a roddir gan rai i waith o'i eiddo. Digwydd y dyddiadau 1455 a 1456 dan ei law yn y gwaith dan sylw, ond dichon mai copi yw'r frawddeg o gofnod yn yr ysgriflyfr gwreiddiol. I gyfnod diweddarach yn y ganrif y perthyn y gweithiau o'i eiddo y gellir eu dyddio'n bendant. Cyfansoddodd farwnadau y gellir eu priodoli i amryw flynyddoedd rhwng 1484 a 1498. Canodd hefyd gwywyddau ac awdlau i ddau o abadau Llanegwestl, sef Sion ap Rhisiart a'i olynydd **Dafydd ab Ieuan ab Iorwerth**. Nid oes hysbysrwydd pryd y dyrchafwyd y naill na'r llall i'r abadaeth, ond gwyddys i dymor **Dafydd** ddyfod i ben pan gysegrwyd ef yn esgob Llanelwy yn 1500, ac wrth olrhain ei ach mewn llyfr achau cyfeirir ato gan y bardd fel 'Esgob.' Ysgrifennwyd y llyfr yma felly naill ai yn y flwyddyn 1500, neu'n fuan wedyn. Prawf hyn yn derfynol i'r bardd fyw i weld y flwyddyn honno, a'i fod wrth ei waith bryd hynny. A gafodd ef weld rhai o flynyddoedd cyntaf y ganrif newydd nid oes dystiolaeth, ond gan na cheir ganddo farwnad i'r **esgob Dafydd** a fu farw yn 1503, tybiaf nad anghywir fyddai gosod cyfnod ei ganu a'i weithgarwch rhwng 1460 a 1500-03.

Fel prydydd, yr oedd Gutun Owain yn feistr ar ei grefft. Barddoniaeth llys yw'r cwbl o'i waith - cywyddau gofyn a dyfalu, cywyddau mawl a marwnad. Nid gwych pob cerdd o'i eiddo, ond y mae camp ar ei farwnadau a'i gwywyddau clod - clod am ddysg, am ddoethineb, am ddewrder. Ond o bob dawn, haelioni a pherchentyaeth deilwng oedd bennaf ganddo. Y mae ei athrylith yn eglur yn herwydd dychymyg cywrain a throadau a dyfaliadau barddonol, a'i awen yn ddigamsyniol yn angerdd ei gerdd glod i ddoniau bardd ac abad ac uchelwr.

Awdur

Thomas Roberts, (1885 - 1960)

Ffynonellau

J. Y. W. Lloyd, *History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog*, iii, 388
Bulletin of the Board of Celtic Studies, iv, 207-21, xv, 99-109
Archifau LIGC: **Peniarth MS 128: Llyfr Edward ap Roger** (86)
J. Gwenogvryn Evans, *Reports on Manuscripts in the Welsh Language* (Historical Manuscripts Commission 1898&€“1910)
Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales
Acton Griscom, 'The "Book of Basingwerk" and Ms. Cotton Cleopatra B.V I-II, *Y Cymmrodor*, xxxv, 49-116
Acton Griscom, 'The "Book of Basingwerk" and Ms. Cotton Cleopatra B.V III, *Y Cymmrodor*, xxxvi, 1-33
E. J. Jones, *Medieval heraldry; some fourteenth century heraldic works* (1943)
E. J. Jones, 'Medieval Heraldry,' *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1942, 198-205

G. J. Williams, *Gramadegau'r Penceirddiaid* (1934)
Gorchestion Beirdd Cymru (1773, 1864), 2il arg., 199-223
E. Bachellery, *L'Oeuvre Poétique de Gutun Owain* (Paris 1950)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Gutun Owain

Gweithiau

- Archifau LIGC: Peniarth MS 129: Llyfr achau Gutun Owain
- Archifau LIGC: NLW MS 3026C: Calendar, a treatise on urine, etc.
- Archifau LIGC: NLW MS 7006D: Llyfr du Basing

Dolenni Ychwanegol

- Wikidata: Q5621953
- Dyddiad cyhoeddi: 1953
- Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Argraffu

Arddull APA



Roberts, T., (1953). GUTUN OWAIN, sef Gruffudd ap Huw ab Owain, uchelwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GUTU-OWA-1450>

Prifysgol

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION

